

Trwydded Caffi Stryd (Byrddau a Chadeiriau)

Telerau ac Amodau

Mae Cyngor Sir Caerdydd yn cefnogi ac yn annog caffis stryd yng nghanol y ddinas gan eu bod yn gwneud cyfraniad pwysig ato, gan ychwanegu bywiogrwydd, lliw a diddordeb i'n strydoedd. Gallant helpu i wneud y mwyaf o fannau cyhoeddus, ategu'r economi leol a'r cyfleusterau a gynigir i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr â Chaerdydd.

Er ein bod yn annog caffis stryd, mae'n bwysig iddynt gael eu gweinyddu a'u rheoli'n gywir i sicrhau eu bod yn bodloni safonau uchel Caerdydd. Ni ddylent rwystro'r briffordd na bod yn beryglus. Gweler Termau ac Amodau'r Drwydded isod.

1. Ni ddyfernir trwyddedau caffis stryd ond i gaffis, bwytai, tafarndai neu sefydliadau arlwyyo eraill sy'n gweini bwyd a diod ar y safle.
2. Cyn cytuno i drwydded caffi stryd ar briffordd, rhaid i'r Cyngor sicrhau nad effeithir yn andwyol ar hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio'r briffordd.
3. Rhaid cydymffurfio ag is-ddeddfau, polisïau a safonau'r Cyngor am resymau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.
4. Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn unig â sefydlu caffi stryd ar briffordd. (Ni chwmpesir caffis ar dir preifat gan y canllaw hwn. Nid oes angen trwydded caffi stryd arnynt, er y bydd angen caniatâd cynllunio). Dylech holi'r Cyngor ynghylch statws y tir dan sylw. Mae'n bosibl bod tir sy'n breifat yn eich tyb yn briffordd mewn gwirionedd, os bu modd i'r cyhoedd ei ddefnyddio ers 20 o flynyddoedd neu fwy, neu os yw'r Cyngor wedi mabwysiadu'r tir yn ffurfiol.
5. Dyfernir caniatâd i ddefnyddio'r briffordd ar gyfer caffis stryd drwy ddyfarnu trwyddedau Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd dan Adran 115E Deddf Priffyrdd 1980. Mae byrddau a chadeiriau a osodir ar y briffordd heb ganiatâd yn rhwystr anghyfreithlon a bydd y Cyngor yn cymryd camau gorfodi mewn achosion o'r fath.
6. Mae hefyd angen i gynnig i estyn y caffi stryd y tu hwnt i led blaen eich siop gael caniatâd unrhyw siop arall â buddiant a effeithir gan y cynnig.
7. Os ydych am weini alcohol i'w yfed yn yr ardal ddiffiniedig i eistedd, bydd angen safle trwydded arnoch sy'n caniatáu gwerthu alcohol oddi ar y safle ac yn yr ardal ddiffiniedig. Gellir gwneud cais am drwydded lleoliad neu i amrywio trwydded lleoliad drwy'r awdurdod trwyddedu lleol, Cyngor Sir Caerdydd.

8. Os yw'r ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig neu'n Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig, ac mae'r cwmni wedi'i ddiddymu, mae'n mynd i ddwylo gweinyddwyr, neu mae wedi methdal, bydd y Drwydded yn annilys ac ni fydd caniatâd yn yr ardal sydd wedi'i diffinio. Ni ellir trosglwyddo'r drwydded felly. Bydd rhaid i weithredwr newydd wneud cais am drwydded newydd.
9. Os yw'r ceisydd yn unig fasnachwr neu'n bartneriaeth anghorfforedig, pan fo'r person neu bartner hwnnw'n methdal, bydd y drwydded yn cael ei diddymu ac ni chaniateir i'r ardal gael ei defnyddio. Ni ellir trosglwyddo'r drwydded felly. Bydd rhaid i weithredwr newydd wneud cais am drwydded newydd.
10. Rhaid i'r ymgeisydd / gweithredwr y drwydded caffi stryd fod yn ddeiliad presennol y drwydded (os oes gan y safle drwydded safle). Ni dderbynnir gweithredwyr trydydd parti.
11. Dylai'r caffi stryd feddu ar ardal o flaen y safle a dylid gallu ei weld o'r safle.
12. Dylid ystyried anghenion defnyddwyr eraill y briffordd e.e. cerddwyr, masnachwyr, busnesau cyfagos.
13. Rhaid cadw llwybr cerdded o 2 fedr o leiaf ar bob adeg.
14. Ni ddylid rhwystro llwybrau argyfwng o'ch adeilad chi a rhai cyfagos gan y caffi stryd a rhaid i gerbydau gwasanaethau brys fod â mynediad ar hyd y stryd ar bob amser, hyd yn oed mewn strydoedd i gerddwyr.
15. Nid yw'n briodol gosod maint safonol i gaffis stryd. Caiff pob cais ei werthuso'n ôl ei rinweddau gan ystyried nodweddion y safle, y gofod sydd ar gael a'r cynllun a gynigir.
16. Mae cynllun dodrefn y caffi a'r dull o'i amgáu'n gorfod cynnig mynediad digonol a lle i gwsmeriaid gerdded.
17. Ni ddylid lleoli byrddau lle byddant yn amharu ar olwg gyrwyr neu'n rhwystr arwyddion priffordd.
18. Os bwriedir gweithredu'r caffi pan fo hi'n dywyll dylai'r ymgeisydd ystyried lefel y goleuo yn yr ardal gaffi arfaethedig. Er y gallai hyn fod yn ddigonol i briffordd gallai fod angen ei ategu fel y gall eich caffi weithredu'n ddiogel.

19. Ar ôl i faint a chynllun caffi stryd gael eu cytuno arnynt mae'n bwysig cydymffurfio â hynny ar bob amser. Rhaid i bob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r caffi fod o fewn y ffin y cytunwyd arni gan gynnwys pob bwrdd, cadair, parasolau, planwyr, rhwystrau/ffensys ac ati.
20. Ym mhob achos, onid yw'n amhriodol neu'n anymarferol, bydd yn rhaid i chi ddarparu amgaefa symudol ar gyfer yr ardal caffi stryd fel rhwystrau neu blawyr. Dylent fod yn sefydlog ac yn gadarn, heb ddarnau sy'n pigo allan a dylai fod rheilin. Efallai y caniateir rhywfaint o hysbysebu ond fe'i cyfyngir i enw'r caffi yn unig. Rhaid peidio â'u defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynnyrch a werthir.
21. Pan fo ardal y caffi stryd wedi'i chytuno arni, bydd cynllun diffiniedig o'r ardal sy'n dangos ffiniau a dimensiynau ynghlwm, ac yn ffurfio rhan o'r Drwydded. Rhaid i gopi o'r Drwydded a'r cynllun cysylltiedig gael ei ddangos ar flaen y safle ar bob adeg a bod ar gael i'w harolygu.
22. Nid yw'r canllaw hwn am ddiffinio steil safonol dodrefn caffis stryd ond dylai'r dodrefn gael ei ddylunio at ddibenion masnachol a dylid cydymffurfio â:
- BS EN 16139:2013 Prawf lefel 1 – 'Dodrefn – cryfder, gwydnwch a gofynion diogelwch seddi annomestig'.
 - BS EN 15372:2008 Prawf lefel 2 – 'Dodrefn – cryfder, gwydnwch a gofynion diogelwch byrddau annomestig'.
 -
23. Os ydych yn bwriadu defnyddio parasolau, mae'n rhaid wrth eu hagog eu gosod yn sownd ac yn gyfan gwbl yn ffiniau'r caffi stryd fel nad ydynt yn achosi rhwystr nac yn beryglus.
24. Ymgynghorir â Heddlu De Cymru ar bob cais am gaffis stryd fel rhan o'r broses gwneud cais.
25. Bydd y trwyddedai'n gyfrifol am lendid ardal y caffi stryd ar bob amser. Dylid gofalu nad yw sbwriel yn ymledu neu'n cael ei chwythu y tu hwnt i'r ardal smygu. Dylai ardal tua phum metr o amgylch y safle gael ei chadw'n glir o unrhyw sbwriel o'r caffi.
26. Dylai'r ardal gael ei hysgubo pan fo angen i'w chadw'n glir o sbwriel a gwastraff. Dylai unrhyw beth a ollyngir neu a dorrir, yn enwedig gwydrau a llestri, gael eu glanhau ar unwaith. Dylai ardal y caffi gael ei glanhau'n drylwyr ar ddiwedd bob diwrnod masnachu a rhaid clirio'r holl fonion sigarét.

27. Rhaid darparu o leiaf un bin sbwriel yn ardal y caffi ar bob amser gweithredu. Nid yw biniau olwynion yn addas at y diben hwn.
28. Bydd methu â chydymffurfio â'r anghenion glanhau yn peryglu adnewyddu'r drwydded a gallai arwain at Hysbysiad Tâl Cosb.
29. Ni fydd y Cyngor yn caniatáu unrhyw osodiadau ar wyneb y briffordd, na gwaith cloddio arno, o unrhyw fath.
30. Dylid gwneud popeth posibl i beidio â niweidio'r ffordd fawr neu eiddo cyfagos. Gallai cost unioni unrhyw ddirodd i arwyneb y briffordd neu gelfi stryd a achosir gan unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â gweithredu'r caffi stryd gael ei godi ar y trwyddedai.
31. Bydd rhaid i'r trwyddedai indemnio'r Cyngor yn erbyn pob gweithred, gofyniad, cost, tâl neu draul sy'n deillio o ddefnyddio'r briffordd dan y caniatâd a roddwyd. Bydd y Cyngor felly'n ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai drefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer o leiaf £5,000,000. Dylid amgáu'r yswiriant â'r cais am drwydded caffi stryd.
32. Nid yw dyfarnu trwydded i weithredu caffi stryd yn ensynio hawl ecsgliwsif i'r ardal. Dylai gweithredwr y caffi wybod y ceidw'r Cyngor yr hawl i gael mynediad i ardal y caffi at ddibenion glanhau, atgyweirio a chynnal a chadw'r briffordd neu gelfi stryd. Dylai sefydliadau eraill fel ymgwymerwyr statudol hefyd ofyn am fynediad i wneud gwaith cynnal a chadw ac i atgyweirio offer. Felly, ceidw'r Cyngor yr hawl i atal y drwydded, dros dro, os bydd angen gwneud hynny am unrhyw reswm.
33. Oriau gweithredu trwydded caffi stryd yw rhwng 7am ac 11pm.
34. Dan delerau Deddf Priffyrdd 1980 rhaid i'r Cyngor hysbysebu ceisiadau am drwydded caffi stryd o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw drwy osod hysbysiadau yn ardal y caffi stryd arfaethedig. Mae'r hysbysiadau hyn yn cynnwys manylion y cynigion ac yn gwahodd sylwadau gan bobl y gallai'r ardal ysmegu effeithio arnynt.
35. Mae ffi prosesu cais am drwydded caffi stryd yn cwmpasu costau gweinyddol a chyfreithiol yr eir iddynt wrth baratoi a dyfarnu'r drwydded. Mae'n seiliedig ar nifer y Byrddau a Chadeiriau y gwneir cais ar eu cyfer.
36. Ar ôl prosesu a chymeradwyo'ch cais, bydd swyddog ariannol yn cysylltu â chi i gael taliad am y drwydded. Ni chyhoeddir y Drwydded cyn i ni gael taliad llawn. Bydd y

Swyddog yn anfon e-gopi o'ch trwydded a fydd yn dangos union gynnwys y drwydded a'r dyddiad dod i ben.

37. Dyfernir trwyddedau 12 mis. Nodir y dyddiad dod i ben ar y drwydded. Mae modd adnewyddu trwydded yn ôl disgrisiwn y Cyngor.
38. Bydd y Cyngor yn arolygu'r safle yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â holl delerau ac amodau'r Drwydded. Gall y Cyngor atal neu ddiddymu trwydded os torrir unrhyw un o amodau'r drwydded.
39. Os credir bod deiliad y drwydded ynghlwm wrth drosedd sy'n gysylltiedig â'r drwydded dan Ddeddf Priffyrdd 1980, caiff deiliad y drwydded Hysbysiad Cosb Benodedig o £100 yn y lle cyntaf i unioni'r sefyllfa drwy ddull sifil. Os na dderbynnir yr hysbysiad cosb benodedig neu os cyflawnir trosedd arall, cyfeirir y mater ar gyfer erlyniad troseddol.
40. Os yw gweithredu caffi stryd yn gweithredu caffi stryd heb drwydded ddilys, gallai'r celfi gael eu symud a'u cadw am ffi nes i drwydded gael ei dyfarnu neu nes i'r dodrefn gael ei gasglu gan y gweithredwr.

Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau â'ch dogfennau wedi'u hatodi i:

GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk

**Cyngor Caerdydd
Gwasanaethau Cymdogaeth,
Ystafell 301, Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
CAERDYDD
CF10 4UW**

Rhowch wybod i'r swyddfa hon os bydd newid i gyfeiriad gweithredu neu weinyddu.

“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.”